# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 8 Hydref 2013** |
| Amser: | **09:05 – 10:42** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_08_10_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **David Sissling, Director General for Health and Social Services, Llywodraeth Cymru**<br>**Albert Heaney, Llywodraeth Cymru**<br>**Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi a Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Paul Dimblebee, Cyfarwyddwr Grŵp – Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

2.1 Holodd y Pwyllgor David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi a Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu data cronnol yn nodi nifer y ceisiadau sy'n cael eu prosesu, lefelau clirio a nifer yr heriau a wneir i ganlyniadau.

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu dadansoddiad manwl o'r achosion a gofnodwyd cyn 2010 ac ers hynny.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 4 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG a chytunodd i ystyried y wybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru pan fyddai'n dod i law ac i ysgrifennu adroddiad. Cytunwyd hefyd i wahodd David Sissling yn ôl i'r Pwyllgor yn ystod tymor yr haf 2014 i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y fframwaith.

## 5 Penodi Aelodau a Chadeirydd anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

5.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd ag argymhellion y panel.

5.2 Cyhoeddir yr Adroddiad ar 9 Hydref 2013.